

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

EL(3) 17-08 (p13) : 12 Mehefin 2008

Cyflwyniad Sgiliau Llywodraeth i ymholiad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfraniad economaidd addysg uwch.

Cyflwyniad

1. Paratowyd y cyflwyniad canlynol ar gyfer ymholiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch cyfraniad economaidd addysg uwch gan Sgiliau Llywodraeth.
2. Sgiliau Llywodraeth y Cyngor Sgiliau Sector (SSC) ar gyfer llywodraeth ganolog a'r lluoedd arfog. Mae hyn yn cynnwys yr holl adrannau llywodraeth, eu hasiantaethau gweithredol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (AGSPBs) a'r lluoedd arfog. Mae hyn yn cynrychioli ôl-troed cyffredinol o 800,000 o staff. Yng Nghymru mae tua 37,000 o staff yn cael eu cyflogi yn y sector sy'n 1.2% o'r boblogaeth (yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth DU 2008 ONS). Cafodd Sgiliau Llywodraeth ei drwyddedu yn Chwefror 2006.

Cefndir

3. Mae Strategaeth Sgiliau'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth yn cynrychioli'r Cytundeb Sgiliau Sector sy'n asesiad o'r anghenion a blaenoriaethau sgiliau o fewn y sector llywodraeth ganolog. Mae'n dynodi ac yn mynegi anghenion sgiliau presennol a phellach gweithlu'r sector, fel y gall y prif randdeiliaid (cyflogwyr, darparwyr dysgu, a Sgiliau Llywodraeth) weithredu ar y cyd i roi sylw iddynt. Mae'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth yn strategaeth tair blynedd a gymeradwywyd gan y Grŵp Rheoli Ysgrifenyddion Parhaol (PSMG) yn Ionawr 2008, ac a lansiwyd yn ffurfiol ar Ebrill 1 2008.
4. Daeth Sgiliau Llywodraeth ei Gynlluniau Gweithredu yng Nghymru i ben yn Chwefror 2008, yn dilyn ymgynghoriad gyda phob un o'r pum partner bwrdd prosiect (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, TUC Cymru a CCAUC). Roedd y cynlluniau gweithredu hyn, wedi'u cyfuno gydag adroddiad Asesiad o Wariant Safonol (SSA) Cyfnod 1 a 2, yn ffurfio'r Sail Tystiolaeth ar gyfer Cymru. Mae Sgiliau Llywodraeth, mewn partneriaeth â phob un o'r partneriaid, yn ymrwymedig i adolygu'r cynlluniau gweithredu ddwy waith y flwyddyn. Roedd y cynllun gweithredu gyda CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) yn cytuno ar gytundeb partneriaeth gyda CCAUC a amlinellir isod fel y sail ar gyfer perthynas gyfredol rhwng y Sector a'r SAUau Cymreig.
5. Fel yr olaf o'r 25 SSC i gael ei drwyddedu, nid yw Sgiliau Llywodraeth eto wedi cyflawni tystiolaeth y gellir ei ddangos ynghylch yr effaith y mae wedi'i gael ar SAUau yng Nghymru, neu'n wir y DU. Fodd bynnag, drwy ei gynllun gweithredu gyda CCAUC, mae gan Sgiliau Llywodraeth ymrwymiad dros gyfnod 2008 – 2011 i ddatblygu'r cysylltiadau hyn, a datblygu rhaglenni wedi'u teilwrio ar

gyfer sector i'w cyflenwi gan y sector AU. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ddangos yn y cynllun gweithredu a welir yn Atodiad A.

6. O'r herwydd, mae Sgiliau Llywodraeth eto i sefydlu ymgysylltiad llawn gyda SAUau yng Nghymru neu'r DU, fodd bynnag, cytunwyd ar hyn yn y cynllun gweithredu gyda CCAUC fel gweithrediad tymor canolig ar gyfer Sgiliau Llywodraeth, i gychwyn yn ystod 2008. O ystyried yr amseru, nid yw Sgiliau Llywodraeth yn gallu gwneud sylw ar hyn o bryd ynghylch effaith ymgysylltiad strategol y SAUau yn achos y llywodraeth ganolog a'r sector lluoedd arfog. Fodd bynnag, bydd cyflenwi cynllun gweithredu gyda CCAUC yn hwyluso'r broses hon drwy gyflawni'r amcanion tymor byr, canolig a hir a osodwyd ar gyfer cyfnod 2008 – 2011.

7. Mae Sgiliau Llywodraeth yn ymwybodol bod CCAUC ar hyn o bryd yn ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygiad gweithlu, a disgwylir canlyniad yr astudiaeth hon i gyflwyno gwybodaeth i ddatblygiadau'r dyfodol mewn darpariaeth dysgu sy'n seiliedig ar waith lefel uwch. Byddai Sgiliau Llywodraeth yn annog y SAUau i ymgysylltu SSCs yn ffurfiol yn y broses, er mwyn cynorthwyo yn natblygiad cyfredol y cydweithio sy'n bodoli gyda CCAUC a'r sector AU yng Nghymru.

Argymhelliad

8. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i gyflenwi'r amcanion a nodwyd yn y cynllun gweithredu hwn gyda CCAUC (Atodiad A). Bydd y cynllun gweithredu hwn yn derbyn ei adolygiad chwe mis cyntaf ar 30 Gorffennaf 2008.

ATODIAD A**Cynllun Gweithredu i Gymru Sgiliau Llywodraeth a CCAUC (fel y cytunwyd yn Chwefror 2008)****Lefel 1 – Materion ariannu di-oed (tymor byr - canolig) ee prosiectau peilot**

Prif Amcan	Gweithred Benodol/ Cyflenwad Arfaethedig	Amserlen ar gyfer Cyflenwi
Datblygiad Graddau Sylfaen	Darparu ymchwil/gwybodaeth i ddarparwyr AU gan gyflogwyr am yr angen a chynnwys posib cwrs Graddau Sylfaen – yn enwedig yn achos llywodraeth ganolog a gwasanaeth cyhoeddus	2008-11
Codi ymwybyddiaeth o Sgiliau Llywodraeth mewn AU a sicrhau cyfathrebu da rhwng Sgiliau Llywodraeth a darparwyr AU ble fo'n briodol	CCAUC i roi cymorth gyda broceriaeth cysylltiadau rhwng Sgiliau Llywodraeth a SAUau i drafod blaenoriaethau a ddynodwyd drwy'r SSA a chyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd.	2008 ymlaen
I sicrhau cyfathrebu da ac effeithiol o rôl Sgiliau Llywodraeth.	Sgiliau Llywodraeth i baratoi crynodeb byr o Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth (ymateb Sgiliau Llywodraeth i'r SSA) a fydd yn tynnu sylw at rôl Sgiliau Llywodraeth ac unrhyw faterion, blaenoriaethau neu weithredoedd perthnasol i AU a ble gellir gwahodd SAUau i ymateb. CCAUC i ledaenu prif gysylltiadau yn y SAUau.	2008 cyfredol

Lefel 2 – Materion tymor-canolig, ee cynyddu'r galw am hyfforddiant, datblygiad sgiliau a dysg yn y sector

Prif Amcan	Gweithred Benodol/ Cyflenwad Arfaethedig	Amserlen ar gyfer Cyflenwi
Datblygiad ymgysylltiad effeithiol rhwng cyflogwyr ag AB ac AU	Gweithio gyda phrif randdeiliaid (h.y. cyflogwyr yng Nghymru a gyda chydweithwyr sy'n arwain ar gynhyrchion, gwasanaethau a chymwysterau o fewn Sgiliau Llywodraeth) i baratoi gwybodaeth am y ddarpariaeth sgiliau perthnasol sydd ei hangen yn y Sector Llywodraeth Ganolog, ac i gyfathrebu unrhyw ganfyddiadau i CCAUC ar gyfer eu lledaenu i'r cysylltiadau perthnasol yn y SAUau.	2008 cyfredol

Lefel 3 – Materion strwythurol a strategol tymor-hir

Prif Amcan	Gweithred Benodol/ Cyflenwad Arfaethedig	Amserlen ar gyfer Cyflenwi
<p>Ymateb i anghenion cyfnewidiol darpariaeth AU o ganlyniad i bwerau pellach sydd wedi'u datganoli: hy. datblygiad posib o ddatganoli yng Nghymru gyda chyflawniad posib pwerau deddfwriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cynulliad Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p>	<p>Gweithio gyda rheolwyr dysgu a datblygiad y Sector, a chyfathrebu'r holl ddatblygiadau i CCAUC ar gyfer eu lledaenu i'r cysylltiadau perthnasol yn y SAUau.</p>	<p>2008 cyfredol</p>
<p>Gweithio gyda phrif bartneriaid er mwyn gweithredu Sgiliau Llywodraeth Strategaeth Sgiliau'r Llywodraeth (ymateb i'r broses SSA) yn unol â'r cynllun gweithredu sy'n cynnwys y pwyntiau canlynol</p>	<p>Sgiliau Llywodraeth i weithio gyda phrif randdeiliaid drwy'r sector gyfan (Cyfarwyddwyr AD i ddechrau) er mwyn gweithredu'r agweddau canlynol o'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth;</p> <p>1. Agor arfer da i gyflogwyr eraill. Er enghraifft</p> <ul style="list-style-type: none"> - Agor cynnig e-ddysgu'r Academi Amddiffyn i OGDs trwy ddiffinio a chyhoeddi'r cynnig erbyn Mawrth 2008 - Agor canolfan achrediad NVQ yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i OGDs erbyn Mawrth 2008 (yn destun i ddatrys materion niferoedd) - Peilotio'r cymhwyster TG ITQ yng Nghyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) a DWP o bosib <p>2. Plannu safonau sgiliau proffesiynol dros amser ym mhrosesau a phenderfyniadau AD. Gall cyfraniad pob Adran gynnwys cymysgedd o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - datblygu cyfarwyddyd ar gyfer recriwtio rheolwyr ynghylch y cydbwysedd rhwng sgiliau craidd a phroffesiynol - peilotio fframweithiau asesu gyda'r proffesiynau mwy i'w defnyddio mewn gwerthusiad a recriwtio 	<p>Mae Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth Sgiliau Llywodraeth yn rhaglen waith dair blynedd (2008 - 2011)</p> <p>Mawrth 2008 cyfredol</p> <p>Mawrth 2008 cyfredol</p> <p>Medi 2008 cyfredol</p> <p>Awst 2008 cyfredol</p> <p>Hydref 2008 cyfredol</p> <p>Rhagfyr 2008 cyfredol</p>

	<ul style="list-style-type: none"> - dod â safle adrannol cydlynol at ei gilydd ar brofiad ehangach, gan ystyried cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan broffesiynau - datblygu rhwydweithiau AD/HOP i reoli talent a chynllunio strategaethau datblygiad <p>3. Erbyn Ebrill 2008, sicrhau bod strategaethau sgiliau adrannol yn cyfrannu at Strategaeth Sgiliau'r Llywodraeth, ac wedi'u halinio o'i fewn mewn meysydd gweithredu cyffredin.</p> <p>4. Rhannu arfer da a phrofiad o ymgysylltiad gyda darparwyr AU ac AB</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dynodi rhychwant o enghreifftiau o ymglymiad presennol eisoes mewn defnydd o fewn y sector llywodraeth ganolog - Dyrannu cyfrifoldeb arweiniol yr Adran ar gyfer datblygu llais y cyflogwr mewn perthynas â darpariaeth AU ac AB. <p>5. Sgiliau Llywodraeth i barhau i ddatblygu rhwydweithiau Penaethiaid Proffesiynau (HoPs) er mwyn sicrhau bod cyfraniadau HoPs yn debygol o gynnwys (ond heb fod yn ymrwymedig neu'n gyfyngedig i;)</p> <p>a) segmentu gweithlu eu proffesiwn;</p> <ul style="list-style-type: none"> o proffesiynau sefydledig i ddarparu GS gyda data segmentu presennol ar gyfer eu gweithluoedd erbyn 31 Mawrth. o GS i ddynodi materion sy'n codi – e.e. yn ymwneud â chysondeb – a chytuno ar ddatrysiadau erbyn 31 Mai mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr sampl o broffesiynau. o erbyn 30 Mehefin, GS i gylchlythyr i'r holl broffesiynau safon ar gyfer y dull o segmentu o proffesiynau rhannol-sefydledig i gyflenwi data segmentu– 	<p>Mai 2009 cyfredol</p> <p>Yn flynyddol o Ebrill 2008 cyfredol</p> <p>O Ebrill 2008 cyfredol</p> <p>Erbyn Mawrth 2008 cyfredol</p> <p>Erbyn Ebrill 2008 cyfredol</p> <p>Erbyn Mehefin 2008 cyfredol</p> <p>Erbyn Gorffennaf 2008 cyfredol</p>
--	---	--

	<p>proffesiynau i enwebu dyddiadau yn ymestyn o Fai i Ragfyr.</p> <p>b) gosod safonau sgiliau proffesiynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> o Safonau Polisi a Chyflawni Gweithredol wedi'u gosod islaw G7 erbyn Medi 2008 o Cymhwyster newydd mewn polisi wedi'i beilotio yng Ngogledd Iwerddon a Whitehall erbyn Medi 2008 o Cymhwyster cyflawni gweithredol wedi'i beilotio erbyn Mawrth 2009 <p>c) meintioli cyflenwad a galw ar gyfer sgiliau yn eu maes;</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7 proffesiwn i gyflenwi cymwysterau yn 2008, 10 yn 2009, y gweddill yn 2010 <p>d) siapio cynllunio gyrfaoedd a gweithlu;</p> <ul style="list-style-type: none"> • 3 HOPs i fod wedi cyhoeddi papurau briffio ar gyfer trafodaeth gyda phroffesiynau eraill erbyn Medi 2008 <p>e) cefnogi datblygiad proffesiynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • 3 HOPs i fod wedi cyhoeddi arfer da erbyn Rhagfyr 2008 <p>f) gwneud cysylltiadau i'r farchnad lafur ehangach.</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 HOPs i fod wedi cyhoeddi gwersi a ddysgwyd drwy weithio gyda SSCs eraill i osod a defnyddio safonau ar gyfer yr holl ddiwydiant erbyn Gorffennaf 2008 <p>g) hyrwyddo ymgysylltiad gyda sectorau addysg.</p> <p>h) Rhannu arfer da a phrofiad o ymglymiad gyda darparwyr AU ac AB</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dynodi enghreifftiau o ymgysylltiad cyfredol erbyn diwedd Ebrill • Dyrannu cyfrifoldeb arweiniol y proffesiwn ar gyfer datblygu llais cyflogwr mewn perthynas â darpariaeth AU ac AB erbyn Mawrth 2008. <p>Bydd Sgiliau Llywodraeth yn cefnogi'r holl</p>	<p>Ionawr 2009 cyfredol</p> <p>Hydref 2008 cyfredol</p> <p>Hydref 2008 cyfredol</p> <p>Mawrth 2009</p> <p>2010</p> <p>Hydref 2008 cyfredol</p> <p>Rhagfyr 2008 cyfredol</p> <p>Awst 2008 cyfredol</p> <p>Cyfredol</p>
--	--	---

	<p>weithgareddau a nodwyd uchod. Yn ychwanegol bydd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> - sefydlu [erbyn Gorffennaf 2008] swyddogaeth gwasanaethau a rennir bychan i gynorthwyo penaethiaid yr 20 proffesiwn llai; - cyd-ddatblygu gyda OGC Buying Solutions Gytundeb Fframwaith Dysgu a Datblygu i sicrhau targedu anghenion sgiliau cyffredin a hwyluso partneriaethau cyflenwi. Bydd ITT yn cyhoeddi diwedd Chwefror 2008 gyda chytundebau i gyflenwyr fframwaith a gyhoeddwyd ym Mehefin 2008 - Cefnogi comisiynu rhaglenni sgiliau craidd ar y cyd, yn cychwyn gyda pheilot mewn Sgiliau Dadansoddol (cytuno ar sgôp a chynllunio peilot erbyn diwedd Mawrth) - Ymgymryd â dadansoddiad anghenion perfformiad traws-sector i gael gwell dealltwriaeth o anghenion dysgu a datblygu cyffredin, yn dechrau fel rhan o'r peilot comisiynu ar y cyd Sgiliau Dadansoddol. Gwerthuso a chyflwyno'r rhaglen lawn yn raddol os yn briodol erbyn Medi ar draws sgiliau craidd - Datblygu gwobrau sgiliau ar gyfer darparwyr mewnol, yn ddewisol fel rhan o'r Gwobrau Gwasanaeth Sifil. Cytuno'r ffordd ymlaen mewn pryd ar gyfer gwobrau 2008 yn Chwefror - Estyniad peilot o brentisiaethau mewn llywodraeth (tranche 1^{af} Ebrill 2008, 2^{il} tranche Medi 2008) - Sefydlu rhwydwaith ar gyfer Adrannau a phroffesiynau ar ymgysylltiad AU/AB - erbyn Mehefin 2008 hwyluso rhaniad cychwynnol gwybodaeth ynghylch trefniadau a phrofiad presennol yr Adrannau ar ymgysylltiad AU/AB. - Sefydlu perthnasau gweithredol gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol a chynnal adolygiad cychwynnol o'u profiad ac arfer wrth sefydlu perthnasau gyda'r sector AU/AB erbyn 	<p>Mai 2008 cyfredol</p> <p>Ebrill 2008 cyfredol</p> <p>Gorffennaf 2008 gyda chefnogaeth gyfredol yn dilyn hynny</p> <p>Mehefin 2008</p> <p>Cyfredol – peilot i'w gynnal erbyn Mawrth 2008</p> <p>Hydref 2008</p> <p>Ebrill 2008</p> <p>Medi 2008</p>
--	---	---

diwedd Ebrill

- Cynnal adolygiad papur o ymgysylltiad cyflogwr/proffesiwn presennol gyda darparwyr AU/AB erbyn diwedd Mai

I fod yn ei le erbyn Ionawr 2009

Gorffennaf 2008

Mai 2008 cyfredol

Mehafin 2008 cyfredol